**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)** |
| **PWNC:** | **PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL) - DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD 2019 DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD 2019** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: M. Moore (Is-gadeirydd, yn y Gadair))
D. Bevan
G. L. Davies
D. Hancock
W. Hodgins
J. P. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
B. Willis

A: Uwch Swyddog Trwyddedu
Cyfreithiwr
Rheolwr Tîm Trwyddedu a Masnachol
Damien Tarrant - Ymgeisydd
Graham Tarrant - Rhiant yr Ymgeisydd

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na wnaed unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorwyr B. Summers, D. Wilkshire a L. Winnett | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>ADRODDIAD GWEITHGAREDDAU AR GYFER CHWARTER 2 2019/2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm - Trwyddedu a Masnachol.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar waith y Tîm Trwyddedu ar gyfer Chwarter 2.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm at yr Adroddiad Gweithredol a rhoddodd drosolwg o'r wybodaeth ynddo a dywedodd y cynhaliwyd un cyfarfod gyda'r Gymdeithas Tacsi leol yn ystod Chwarter 2 i drafod materion sy'n effeithio ar fasnach leol a byddai'r cyfarfodydd hyn yn parhau yn ystod gweddill chwarteri 2019/20.<br><br>Yng nghyswllt yr Adroddiad Rheoli dywedodd y Rheolwr Tîm y byddai gwaith yng nghyswllt Casgliadau Elusennol a Sefydliadau Rhyw yn dechrau yn Chwarter 4 2019/20. Caiff yr holl ffioedd trwydded perthnasol i faterion trwyddedu cyffredinol eu hadolygu yn ystod Chwarter 3 a 4 2019/20 gyda'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu o 1 Ebrill 2020.<br><br>Dywedodd Aelod y gwnaed cais yn y cyfarfod diwethaf am ddiweddariad ar gydweithio a threfniadau'r dyfodol gan fod y Rheolwr Tîm Trwyddedu blaenorol wedi dychwelyd i'w swydd gyda Chyngor Torfaen. Dywedodd y Rheolwr Tîm y gallai Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ar ar gydweithio a threfniadau'r dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad | |

| | | |
|---|---|---|
| | a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 2). | |
| **No. 5** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>**<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem ddilynol o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). | |
| **No. 6** | **<u>RHESTR CEISIADAU AR GYFER TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI A HUR PREIFAT</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r wybodaeth felly gael ei heithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra trafodir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.<br><br>**<u>Cais am Drwydded Newydd</u>**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau.<br><br>Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu i'r cyfarfod gael ei gynnull ar gyfer cais newydd am Drwydded Cerbyd Hacni a Thrwydded Breifat. Rhoddodd y Swyddog wybodaeth i Aelodau am yr ymgeisydd a'r troseddau a gyflawnwyd a dywedodd mai dyletswydd y Pwyllgor oedd penderfynu p'un ai i roi trwydded i'r ymgeisydd am gyfnod llawn o 36 mis neu unrhyw gyfnod arall a welai'n dda neu i wrthod y cais.<br><br>Cyflwynodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd a gwahoddodd ef i esbonio amgylchiadau'r drosedd.<br><br>Dechreuodd yr Ymgeisydd drwy ddweud i'w boilisi yswiriant gael ei ganslo yn anffodus oherwydd dryswch; fodd bynnag, yn y cyfnod cyn iddo gymryd polisi pellach, cafodd ei gosbi gan yr Heddlu. Nodwyd y bu gan yr ymgeisydd drwydded yrru am 11 mlynedd ac | |

| | | |
|---|---|---|
| | nad oedd ganddo unrhyw euogfarnau eraill a hysbysodd Aelodau ei fod wedi gwneud cais am Drwydded Cerbyd Hacni a Hur Preifat i roi gwell ffordd o fyw i'w deulu.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan ofynnodd Aelodau am eglurhad gan yr Ymgeisydd am y drosedd.<br><br>Ar y pwynt hwn, darllenodd y Cyfreithiwr dystlythyrau a dderbyniwyd i gefnogi'r ymgeisydd.<br><br>Gadawodd yr Ymgeisydd y cyfarfod tra ystyriodd Aelodau y cais.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ail-ymuno â'r cyfarfod ac, ar gais y Cadeirydd, darllenodd y Cyfreithiwr benderfyniad y Pwyllgor fel sy'n dilyn:<br><br>Gwnaed y cais gerbron y Pwyllgor heddiw gan yr Ymgeisydd am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni. Hysbysodd yr ymgeisydd yr Aelodau nad oedd wedi dal Trwydded Gyrru Cerbyd Hacni o'r blaen. Nododd y Pwyllgor o gofnod y drosedd o'u blaen heddiw fod gan yr ymgeisydd un euogfarn foduro. Cynigiodd yr ymgeisydd esboniad i'r Pwyllgor i liniaru ei weithredoedd am gyflawni'r drosedd. Dywedodd yr ymgeisydd wrth y Pwyllgor pe câi drwydded heddiw, dywedodd y caiff ei gyflogi gyda chwmni tacsi lleol yng Nglynebwy.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd o'u blaen heddiw ac wrth ddod i'w penderfyniad maent hefyd wedi ystyried yr euogfarn flaenorol ynghyd â'r sylwadau a gafwyd gan y swyddogion trwyddedu oedd yn bresennol, a'r Ymgeisydd.<br><br>Roedd y Pwyllgor o'r farn fod yr Ymgeisydd yn berson ffit ac addas i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a bod y pwyllgor yn cytuno i'r cais. Os byddai'n cyflawni unrhyw droseddau pellach yn ystod cyfnod y drwydded, hysbyswyd yr Ymgeisydd y gellid dod ag ef yn ôl gerbron y Pwyllgor ac y gellid diddymu'r drwydded.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gytuno i'r Drwydded Cerbyd Hacni a'r Drwydded Breifat. | |